Pwyllgor Cynghori Cafcass Cymru
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2019
Swyddfeydd Cafcass Cymru, Parc Cathays, Caerdydd

Yn bresennol:

Jackie Murphy (JM)	Cadeirydd
Paul Apreda (PA)	FNF Both Parents Matter Cymru
Beth Flowers (BF)	Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
Eleri Butler (EB)	Cymorth i Ferched Cymru
Gareth Jenkins (GJ)	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Sean O'Neill (SO)	Plant yng Nghymru
Dan Ronson (DR)	Cyngor Cyfryngu Teuluoedd
Karen Broadhurst (KB)	Prifysgol Caerhirfryn
Linda Cusworth (LC)	Prifysgol Caerhirfryn
Nigel Brown (NB)	Cafcass Cymru
Matthew Pinnell (MP)	Cafcass Cymru
Vikki Sweeney (VS)	Cafcass Cymru (ysgrifenyddiaeth)
Matt Wright (MW)	Cafcass Cymru

---

1. Croeso

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Arweiniodd y Cadeirydd y cyflwyniadau o gwmpas y bwrdd.

Cafwyd ymddiheuriadau gan:

Catrin Cracroft	Cynrychiolydd Cymdeithas y Gyfraith
Sharon Lovell	Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru
Des Mannion	NSPCC Cymru
Judge Helen Mifflin	Y Farnwriaeth
James O'Reilly	Comisiwn Gwasanaethau'r Gyfraith
Rakhshanda Shahzad	BAWSO De Cymru
Zoe Richards	Anabledd Dysgu Cymru
Hugh Simkiss	Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi
Sarah Coldrick	AFA Cymru
Denise Inger	Snap Cymru

3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2019 – eilio'r cofnodion cyn eu cyhoeddi ar wefan Cafcass Cymru

Cytunwyd – Nid oedd angen diwygio'r cofnodion.

4. Materion yn codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5. Atgyfeiriadau a Pherfformiad

Cyfraith Gyhoeddus

Rhoddodd NB drosolwg o'r atgyfeiriadau a ffigurau perfformiad ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2019 tan 30 Medi 2019. Cafwyd lleihad yn nifer ceisiadau adran 31 ond mae nifer gyffredinol yr atgyfeiriadau cyfraith gyhoeddus yn parhau'n gyson.

Cyfraith Gyhoeddus

Rhoddodd NB adroddiad bod cynnydd yn parhau yn nifer a chymhlethdod atgyfeiriadau cyfraith gyhoeddus.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI)

Mae gwaith yn parhau ar wella KPI3.

6. Prosiect Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol (FJO) a Chyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) – Cyflwyniad

Yr Athro Karen Broadhurst Prifysgol Caerhirfryn a'r Dr Linda Cusworth Prifysgol Caerhirfryn fu'n gyfrifol am roi cyflwyniad Partneriaeth Data Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. Ers 2015, mae Sefydliad Nuffield wedi bod yn ariannu datblygiad yr Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol er mwyn:

- Cefnogi'r canlyniadau gorau posibl i blant sy'n dod i gysylltiad â'r system Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru a Lloegr.
- Gwella mynediad i ddata a thystiolaeth ymchwil a'r defnydd ohonynt
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi materion sydd angen gweithredu yn eu cylch
- Cynhyrchu tystiolaeth a gweledigaeth newydd
- Defnyddio tystiolaeth gyfredol fwyfwy trwy ddehongli a defnyddio

Yr adroddiad cyntaf a gyhoeddwyd trwy ddefnyddio data Cafcass Cymru oedd 'Mewn Gofal o'u Geni' sy'n adlewyrchu darn tebyg o waith ymchwil a wnaed yn Lloegr. Rhannwyd cynllun gwaith ar gyfer y dyfodol gydag aelodau'r Pwyllgor Cynghori.

Diolchodd y Cadeirydd i Karen a Linda am eu cyflwyniad ysgogol a lwyddodd i sbarduno trafodaeth fywiog a gwybodus.

Cam gweithredu: VS i ddosbarthu copïau o gyflwyniad Partneriaeth Data Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

7. Cynllun Strategol Cafcass Cymru

Hysbysodd NB aelodau'r cyfarfod fod staff wedi bod yn gweithio ar ddatblygu cynllun strategol newydd Cafcass Cymru. Cyflwynwyd y cynllun drafft i aelodau'r Pwyllgor Cynghori i gael eu barn a'u cyfraniad. Gofynnwyd i Aelodau drosglwyddo unrhyw syniadau i NB erbyn 15 Tachwedd.

Cam gweithredu: VS i ddosbarthu copïau o'r Cynllun Strategol drafft i'r aelodau.

8. Ymateb Cafcass Cymru i'r Ymgynghoriad ar Gyfraith Breifat a Chyhoeddus

Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

9. Unrhyw Fater Arall

Bydd NB yn dosbarthu copi dan embargo o Adroddiad Blynyddol Cafcass Cymru i aelodau'r Pwyllgor Cynghori 2 ddiwrnod cyn ei gyhoeddi.

10. Dyddiadau ar gyfer 2020

Cynhelir y cyfarfodydd nesaf ar:

18 Mawrth 2020 09:30 - 11:30 – Swyddfa Llywodraeth Cymru, Caerdydd
30 Mehefin 2020 09:30 - 11:30 – Swyddfa Llywodraeth Cymru, Caerdydd
3 Tachwedd 2020 09:30 - 11:30 – Swyddfa Llywodraeth Cymru, Caerdydd

Diolchodd y Cadeirydd i Bwyllgor Cynghori Cafcass Cymru am eu cyfraniad gwerthfawr i'r cyfarfod.

CAMAU GWEITHREDU

Eitem Agenda	**Cam gweithredu**	**Arweinydd**
Eitem 6 – Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol a Phrosiect Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw - Cyflwyniad	Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu copïau o gyflwyniad Partneriaeth Data Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield	Ysgrifenyddiaeth
Eitem 7 – Cynllun Strategol Cafcass Cymru	Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu copïau o Gynllun Strategol Cafcass Cymru	Ysgrifenyddiaeth